# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Guardian Angels Carers Caerdydd**

**Uned 4**
**Parc Tŷ Glas**
**Caerdydd**
**CF14 5DU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/08/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Guardian Angels Carers Caerdydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | NICE TELEFONE CO LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf a gynhaliwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Guardian Angels Carers Caerdydd yn wasanaeth cymorth cartref i oedolion, 18 oed a throsodd. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain yn ardal Caerdydd. Mae'r sefydliad yn gymharol newydd a dechreuodd weithredu ym mis Ionawr 2023.

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth dibynadwy a phroffesiynol. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn hapus â'r gofal y maent yn ei gael ac yn canmol y gweithwyr gofal sy'n gyfeillgar ac yn barod i helpu. Caiff y gofal ei ddarparu gan dîm o staff bach a chyson. Mae dogfennau gofal ar waith sy'n ystyried anghenion a dymuniadau'r bobl ac maent yn ystyried risgiau yn effeithiol.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymwneud â rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd ar hyn o bryd ac mae'n ei oruchwylio'n dda. Mae'r datganiad o ddiben yn nodi gweledigaeth y gwasanaeth ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael cymaint o ddewis a rheolaeth â phosibl. Caiff y cynlluniau personol eu hysgrifennu ar y cyd â'r bobl sy'n cael y gwasanaeth a/neu eu cynrychiolwyr. Caiff cynlluniau eu personoli ac maent yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r bobl a sut yr hoffent i'w cymorth gael ei ddarparu. Mae'r bobl yn canmol y staff gofal, gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. Dywedodd un unigolyn *"I enjoy the friendly chat; it makes my day.".*

Mae'r bobl yn derbyn eu cymorth ar yr adegau y bwriadwyd iddynt ei gael. Dywedodd un unigolyn wrthym "*The carers I have are friendly, patient and understand my needs. They make clear arrangements in advance, so I know what I'm doing. They turn up on time and stay the full time they are booked for. I really like my new dedicated carer and she seems to like me."*

Mae'r bobl yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth sy'n eu helpu i wneud dewisiadau am y gofal y maent yn ei dderbyn. Caiff copi o'r datganiad o ddiben ei ddarparu i'r bobl pan fydd y gwasanaeth yn dechrau. Mae hyn yn helpu'r bobl i ddeall yr amrywiaeth o gymorth sydd ar gael gan y gwasanaeth ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau.

Caiff y bobl eu cefnogi i gadw'n ddiogel ac yn iach. Dywedodd y bobl a'u cynrychiolwyr wrthym eu bod yn gwybod sut i godi pryderon a'u bod yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny.  Mae trefniadau diogelu ar waith sy'n sicrhau y caiff y bobl eu hamddiffyn yn briodol rhag y risg o niwed. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn hyderus o ran sut i ymateb i unrhyw bryderon yn unol â'r canllawiau cyfredol. Dywedodd cynrychiolydd unigolyn wrthym*"The carers are always very loving and caring to my parents. I always feel comfortable leaving them in their care.*"

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau y caiff anghenion y bobl eu hasesu ac y gall y gwasanaeth eu diwallu, cyn i'r cymorth ddechrau. Mae'r darparwr wedi cynnal asesiad priodol o anghenion pob unigolyn sy'n cael cymorth. Mae asesiadau'r darparwr yn gynhwysfawr, wedi'u personoli ac yn nodi pa gymorth sydd ei angen a sut yr hoffai'r bobl i'r cymorth hwnnw gael ei ddarparu. Dywedodd cynrychiolydd un unigolyn fod y gwasanaeth yn *“very efficient and professional who take great care to go through the care plan and ensure the clients wishes are captured.”*

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff bach a chyson. Mae'r gweithwyr gofal yn dangos sensitifrwydd a dealltwriaeth wrth helpu'r unigolion i fyw mewn ffordd mor annibynnol â phosibl. Mae'r cynlluniau personol yn gynhwysfawr ac yn rhoi gwybodaeth briodol i'r gweithwyr gofal ei dilyn.  Lle caiff risgiau eu nodi, caiff asesiadau risg eu cwblhau. Lle caiff newidiadau mewn anghenion gofal eu nodi, caiff y cynlluniau personol eu diweddaru. Mae angen i'r gwasanaeth roi trefniadau ar gyfer adolygu'r dogfennau gofal yn rheolaidd ar waith.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o ansawdd da gan wasanaeth sy'n hyrwyddo cyfranogiad y bobl yn y gwasanaeth sydd ei angen arnynt. Ceir diwylliant o gefnogi annibyniaeth y bobl ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae'r staff yn cymryd eu hamser wrth gwblhau tasgau. Dywedodd cynrychiolydd un unigolyn wrthym “*The carers seem very well trained. Watching the carers slide mum and move her in bed was excellent, it felt like the nursing care she received in hospital. They are also very friendly and put mum at ease.”*

Caiff iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl eu cefnogi. Mae gan y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o gyflyrau iechyd y bobl a'r cymorth sydd ei angen arnynt. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant emosiynol y bobl ac yn rhoi sicrwydd i aelodau'r teulu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae Guardian Angels Carers Caerdydd yn sefydliad gymharol newydd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn gweithio yn y sefydliad ac yn weladwy ac yn hygyrch i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff. Mae gan y sefydliad strwythur sy'n cynnwys llinellau atebolrwydd clir. Mae'n ymrwymedig i feithrin diwylliant sy'n ymdrechu i sicrhau y caiff y canlyniadau gorau posibl eu cyflawni i'r bobl.

Mae gwybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth ar gael i'r bobl. Ceir datganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr. Mae'r datganiad o ddiben yn hanfodol ar gyfer nodi gweledigaeth y gwasanaeth ac mae'n ddogfen allweddol sy'n dangos yn glir yr amrywiaeth o anghenion y bydd y gwasanaeth yn eu diwallu, gan gynnwys unrhyw wasanaeth/gofal arbenigol a gynigir.  Darperir darlun clir o'r gwasanaethau.

Caiff y gofal ei ddarparu gan aelodau o weithlu sy'n teimlo'n hapus a'u bod yn cael eu cefnogi. Caiff y gwiriadau addasrwydd cyn cyflogi gofynnol eu cwblhau cyn i aelodau newydd o staff ddechrau gweithio. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo bod y cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael iddynt yn addas. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal bod trefniadau ar waith i sicrhau parhad wrth ymgymryd â galwadau, sy'n eu galluogi i ddod i adnabod y bobl a'u hanghenion yn dda. Dywedodd y gweithwyr gofal eu bod yn cael digon o amser i deithio rhwng galwadau. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym *“These are the only carer service where the carers stay for the full time they are booked for. The carers are very good at listening to me; it’s such a good company as the carers are paid all travelling time and they seem to be valued as employees. This is a rare thing in my experiences with care companies.”*

Mae'r bobl yn gwybod sut i godi pryderon os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn hyderus yr ymdrinnir ag unrhyw broblemau yn gyflym. Dywedodd cynrychiolydd un unigolyn *“They took on board immediately any concerns we had, or things mum needed and didn’t worry about tailoring the care to her individual needs. The care manager was also good with H&S [health and safety] risk assessment and setting up the care plan”.* Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym “*The admin staff are easy to contact and try to help if I need to make changes*”.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi